# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Plant Y Tri Arth**

**Ysgol Gymraeg Cwmbrân**
**Ffordd Henllys**
**Cwmbrân**
**NP44 4HB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Joanne Lewis wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 43 o blant 12 oed ac iau. Mae Clwb Plant y Tri Arth wedi'i leoli yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân ac mae'n cynnig gofal ar ôl ysgol mewn caban yng nghefn yr ysgol. Mae’r gwasanaeth ar agor rhwng 3.30 a 6.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Mae'r person cofrestredig wedi penodi Person â Chyfrifoldeb cymwys i reoli'r clwb o ddydd i ddydd. Darperir y gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arwain a Rheoli** | **Digonol** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant wedi setlo'n dda ac yn hapus mewn gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion cyffredinol.
Mae ganddynt gydberthnasau da â'u cyfoedion a'r aelodau o’r staff. Mae'r staff yn ymateb i anghenion y plant yn eu gofal ac yn eu cefnogi'n dda, gan ddarparu ystod dda o brofiadau chwarae a dysgu i hyrwyddo eu datblygiad. Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n dda, gyda systemau addas ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Caiff y gwasanaeth ei arwain yn effeithiol ar y cyfan, ond mae angen defnyddio dull gweithredu mwy cadarn o ran sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd a bod yr holl ofynion rheoliadol yn cael eu bodloni.

### 2. Gwelliannau

Yn yr arolygiad blaenorol, cafodd dau achos o dorri rheoliadau eu hamlygu mewn perthynas â bwyd a diod a llunio adolygiad o ansawdd y gofal. Ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio a chymerwyd camau prydlon. Mae argymhellion o'r adroddiad blaenorol hefyd wedi cael eu rhoi ar waith, sef cynyddu'r cyfleoedd i'r plant feithrin eu hannibyniaeth, eglurder ynghylch cymarebau staffio a'r defnydd a wneir o staff, a llunio cynllun gweithredu.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi hysbysu'r Person Cofrestredig fod angen gwelliant mewn perthynas â ffeiliau’r staff a gwiriadau’r DBS er mwyn bodloni’r gofynion cyfreithiol yn llawn. Ni chyflwynwyd hysbysiadau diffyg cydymffurfio yn yr achos hwn gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol

na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r Person Cofrestredig yn cymryd camau i unioni'r materion hyn.

Gwnaethom argymhellion ar gyfer arferion da, a grynhoir yn adran 5.2 o'r adroddiad.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn, yn ddiogel ac yn gyfarwydd ag arferion y clwb ar ôl ysgol. Mae'r profiadau chwarae yn amrywiol, yn briodol ar gyfer oedran y plant ac yn cadw eu diddordeb. Mae'r plant yn hyderus i leisio eu barn a rhannu eu teimladau, ac maent yn cael digon o ddewis. Maent yn teimlo'n ddiogel a gwnaethant egluro wrthym sut maent yn treulio eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac maent yn ymddwyn yn dda iawn.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus a chânt gyfleoedd i fynegi eu hunain. Gwnaethant siarad yn frwdfrydig pan ofynnwyd iddynt beth yr hoffent ei wneud. Gwelsom blant o bob oedran yn hunangyfeirio eu chwarae ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain rhwng gweithgareddau dan arweiniad oedolion. Roedd yn amlwg bod ganddynt gydberthnasau agos wrth i'r plant fynd at y staff i gael sicrwydd ac i sgwrsio â nhw. Wrth ganmol y plant am eu cyflawniadau a'u hymdrechion, dangosodd y plant falchder a boddhad yn eu gweithredoedd.

Mae'r plant wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd, ac mae'r awyrgylch yn brysur a hwyliog. Gwelsom blant yn chwerthin ac yn rhedeg o gwmpas yr ardal awyr agored. Roeddent yn llawn bywyd, yn ymddiddori yn eu gweithgareddau ac yn ymateb yn dda pan oedd y staff yn ymuno yn eu gemau. Mae'r plant yn rhannu adnoddau a chyfarpar, gan ddangos parch at yr eitemau a chwrteisi, fel dweud 'please' a 'thank you'.Roedd y staff yn siarad yn barchus ac yn gwrtais â'r plant bob amser, ac roedd y plant yr un mor gwrtais yn ôl. Roedd nifer o’r plant yn awyddus i ddweud wrthym faint y maent yn hoffi'r clwb a'r rhesymau dros hynny. Gwnaethant restru'r holl weithgareddau a oedd ar gael a gwnaethant ddweud bod y staff yn eu helpu gydag unrhyw bryderon a gyda’u hyder.

Yn ystod ein hymweliad, roedd y plant yn rhyngweithio ac yn cydweithio'n dda â'r plant eraill. Dywedodd y staff wrthym fod y rhan fwyaf o'r plant yn deall y gall eu gweithredoedd effeithio ar emosiynau pobl eraill. Gwelsom nifer o'r plant yn cwblhau amrywiaeth o dasgau a sefyllfaoedd chwarae lle roedd gofyn iddynt drafod dymuniadau ei gilydd a chymryd eu tro. Mae'r plant fel arfer yn datrys mân sefyllfaoedd gwrthdaro eu hunain, neu'n ymateb yn briodol i gyfarwyddyd tyner gan y staff os oes angen. Dywedodd plant o oedrannau gwahanol wrthym eu bod yn mwynhau'r cyfle i gymdeithasu â phlant o grwpiau blwyddyn eraill na fyddent yn eu hadnabod fel arall.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae sy'n eu diddori a'u cyffroi. Dywedodd pob un o’r plant y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn mwynhau eu hamser yn y clwb ac roeddent yn brysur yn chwarae ag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau. Mae'r pwyslais yn bennaf ar chwarae rhydd ond mae

gweithgareddau ar gael bob amser y gall plant ymuno ynddynt a'u mwynhau, fel chwarae cuddio yn yr awyr agored, neu weithgareddau coginio neu grefftau gyda'r staff. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau'r rhyddid i ddewis yn ogystal â chael syniadau gan y staff.

Mae'r plant yn weithgar ac yn meithrin eu sgiliau cyffredinol gyda chymorth ac anogaeth gan y staff. Roedd y plant yn sgwrsio â'i gilydd ac yn gofyn am help gan y staff pan oedd angen. Maent yn chwarae'n hapus â'i gilydd, mewn parau ac mewn grwpiau. Mae'r plant yn datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth. Er enghraifft, cânt eu hannog i roi pethau i gadw ar ôl cwblhau gweithgareddau, helpu eu hunain i ddŵr a gofyn am ragor o fwyd os byddant yn dal i fod yn llwglyd amser te.

## 2. Gofal a Datblygiad **Da**

### Crynodeb

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran darparu gofal priodol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn dda i sicrhau bod y plant yn teimlo'n hapus, wedi setlo ac yn cael gofal da. Mae grŵp sefydlog o staff sy'n brofiadol wrth weithio gyda phlant ac maent yn cael cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol yn unol â'r safonau presennol.

### Ein canfyddiadau

Mae gweithdrefnau iechyd a diogelwch addas ar waith. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig, hyfforddiant ar hylendid bwyd, a chaiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd. Caiff y plant eu hannog i olchi eu dwylo cyn bwyta, ac roeddent yn gwneud hynny o'u gwirfodd fel rhan o'u trefn arferol. Dywedodd y plant wrthym "The food tastes really good"; cytunodd y Person Cofrestredig i sicrhau bod y dewisiadau ar y fwydlen yn cyd-fynd â chanllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru. Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddyletswydd Atal. Mae polisi amddiffyn plant ar waith ond mae angen rhagor o wybodaeth am hyn. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu a'r angen i gofnodi pryderon; gwnaethom drafod adolygu eu dull o gofnodi pryderon er mwyn sicrhau cyfrinachedd. Gwnaethom nodi nad oedd ffotograffau o'r plant yn mwynhau eu gweithgareddau yn cael eu cymryd ar ddyfais a oedd yn unigryw i'r clwb; cytunodd y Person Cofrestredig i unioni hyn ar unwaith.

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'r plant mewn modd rhagweithiol a chadarnhaol. Maent yn ddigynnwrf ac yn gyson, sy'n annog y plant i ymddwyn yn briodol. Maent yn pennu ffiniau realistig ac yn sicrhau bod y plant yn cadw'n brysur. Mae'r staff yn fodelau rôl cadarnhaol ac maent yn barchus ac yn gwrtais tuag at ei gilydd a'r plant. Gwnaethom nodi bod y plant yn gwerthfawrogi cymeradwyaeth y staff a bod y staff yn rhoi canmoliaeth am lwyddiannau ac ymdrechion. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn cael croeso cynnes bob amser a'u bod yn gwybod sut i gael help os oes ei angen arnynt.

Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn dda, gan roi lle ac amser iddynt ddewis, gan fod pwyslais ar ddysgu a chwarae wedi'i arwain gan y plant. Mae'r gwaith cynllunio'n hyblyg ac wedi'i arwain gan y plant. Ymunodd y staff mewn gweithgareddau gyda'r plant ar sawl achlysur, gan eu helpu i ddeall sillafu a rhifau drwy gwestiynu a chwarae gemau. Clywsom y plant yn siarad â'r staff am eu diddordebau a'u bywyd ysgol, ac roedd y staff yn ymwybodol o ddewisiadau a diddordebau'r plant. Dywedodd un rhiant y gwnaethom siarad ag ef wrthym fod ei blentyn "Is always bringing things home which they've made her as well as having the right balance of being able to play and relax after school".

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

### Crynodeb

Mae'r clwb yn darparu amgylchedd addas i'r plant chwarae a dysgu. Mae'n gweithredu o adeilad ar wahân ar dir ysgol gynradd, a ddefnyddir gan ddosbarth meithrin yn ystod y dydd. Mae cegin a thoiledau yn yr adeilad ac mae'r plant yn cael budd o allu defnyddio iardiau mawr yr ysgol. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn groesawgar, gydag amrywiaeth dda o adnoddau.

### Ein canfyddiadau

Mae rhywfaint o systemau addas ar waith i fonitro diogelwch yr amgylchedd, ond ni chaiff hyn ei ddangos bob tro. Er enghraifft, caiff asesiadau risg dyddiol eu cwblhau'n weledol, ond ni chânt eu dogfennu. Mae asesiadau risg manylach ar waith hefyd, ond ar adeg yr arolygiad nid oeddent yn cael eu defnyddio fel dogfennau gweithredol am eu bod yn cael eu cadw ar liniadur y Person Cofrestredig. Mae gan y gwasanaeth gegin ar gyfer paratoi byrbrydau, sy'n lân ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Caiff y drws ffrynt ei gadw ar glo a chaiff y drws i'r brif ystafell ei agor gan ddefnyddio ffob, felly ni all ymwelwyr gael mynediad i'r gwasanaeth heb drefnu ymlaen llaw. Mae'r staff yn sicrhau y caiff y llyfr ymwelwyr ei gwblhau yn ôl yr angen. Mae cofrestr plant yn cael ei chwblhau ac mae'r rhieni'n llofnodi pan fydd eu plant yn cyrraedd ac yn gadael.

Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant dan do. Mae'r plant yn cael budd o allu defnyddio iardiau mawr yr ysgol i chwarae yn yr awyr agored, ac maent yn eu defnyddio'n rheolaidd. Dywedodd y plant a'r staff wrthym eu bod weithiau'n mynd ag adnoddau allan i'r awyr agored os byddant yn dymuno. Mae mynediad i'r toiledau o'r brif ystafell. Mae digon o adnoddau ar gael, a dywedodd y plant wrthym eu bod yn gwybod beth sydd ar gael mewn cwpwrdd storio mawr, felly byddant yn gofyn i'r staff os byddant am gael gafael ar rywbeth gwahanol. Mae'r safle'n cael ei addurno a'i gynnal a'i gadw'n dda, a dywedwyd wrthym y bydd y staff yn rhoi blancedi a gobenyddion/clustogau i'r plant ymlacio gyda gweithgaredd tawel os byddant yn dymuno. Gan fod yr adeilad yn cael ei ddefnyddio yn ystod y dydd gan blant ifanc, nid yw'r holl ddodrefn yn ddelfrydol ar gyfer y plant hŷn sy'n mynychu ar ôl ysgol. Dywedodd y Person Cofrestredig wrthym ei bod yn ymwybodol o hyn a'i bod bob amser yn chwilio am ffyrdd y gall sicrhau bod y plant hŷn yr un mor gyfforddus.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl adnoddau o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedrannau amrywiol y plant. Gwelsom ddetholiad o adnoddau creadigol, posau a theganau amrywiol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ofodol, siâp a sgiliau rhifedd. Gall y plant wylio ffilmiau weithiau os byddant am ymlacio. Caiff y gofod awyr agored ei ddefnyddio'n rheolaidd ac mae gan y plant ryddid i fynd i mewn ac allan fel y mynnant am ran fawr o'r sesiynau. Roedd yr adnoddau yn lân ac yn gweithio'n briodol.

## 4. Arwain a Rheoli — Digonol

### Crynodeb

Gwnaed newidiadau i'r gwasanaeth sydd wedi effeithio ar drefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth hwn i raddau. Mae anghysondeb mewn perthynas â phrosesau recriwtio ac mae angen dull mwy cadarn o sicrhau bod rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn cael eu bodloni bob amser. Fodd bynnag, mae cymorth cyson gan y Person Cofrestredig a thîm ymroddedig o staff yn golygu bod systemauaddas ar waith yn gyffredinol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddidrafferth, yn ogystal â chysylltiadau cadarnhaol â’r rhieni.

### Ein canfyddiadau

Caiff y gwasanaeth hwn ei reoli i safon foddhaol yn gyffredinol. Mae'r arweinwyr yn awyddus i gynnig gwasanaeth o ansawdd da ac maent yn ymwybodol o feysydd y mae angen eu gwella. Mae'r Person Cofrestredig yn cynnal cyswllt rheolaidd i oruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth ac i gefnogi'r Person â Chyfrifoldeb dros dro a'r staff. Mae amrywiaeth addas o bolisïau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu ethos y gwasanaeth, er nad oedd pob un ohonynt wedi cael eu dyddio'n rheolaidd i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu ddiwethaf. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth allweddol i rieni am y gwasanaeth, ac ers ein hymweliad diwethaf, mae'r ddogfen wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r trefniadau staffio presennol. Mae polisi cwyno ar waith, er nad oes unrhyw gwynion wedi dod i law. Gwelsom fod cofnodion y plant yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol, er nad oedd yr holl gofnodion diweddaraf yn cael eu cadw ar y safle. Gwelsom fod y tîm yn cydweithio'n effeithiol a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae system ar waith i adolygu ymarfer ac roedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar. Defnyddiwyd holiaduron y plant i gasglu adborth yn ddienw. Fodd bynnag, collwyd cyfleoedd i ddangos tystiolaeth o adborth cadarnhaol iawn gan rieni. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn cael cyfle i fynegi eu barn a’u syniadau yn rheolaidd ynghylch agweddau allweddol er mwyn sicrhau gwelliannau a dull gweithredu cyson. Gwnaethom nodi bod y Person â Chyfrifoldeb dros dro yn canolbwyntio ar wneud rhagor o welliannau a datblygu'r gwasanaeth ymhellach.

Mae angen gwella'r gwaith o reoli'r gwasanaeth. Gwelsom fod y wybodaeth yn ffeiliau'r staff yn anhrefnus, nad oedd y wybodaeth yn cael ei chadw yn y gwasanaeth a bod rhywfaint o wybodaeth ar goll. Yn yr un modd, yn ystod ein hymweliad cyntaf, gwelsom nad oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol yn y gwasanaeth hwn. Erbyn ein hail ymweliad, roedd y Person Cofrestredig wedi cymryd camau i gael gafael ar y rhain. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw effaith andwyol ar y plant a chymerwyd camau prydlon, felly ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio ar yr achlysur hwn. Dywedodd y Person Cofrestredig wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn aml ar sail ad hoc, er nad yw'r rhain yn cael eu dogfennu. Yn yr un modd, mae'r prosesau goruchwylio ac

arfarnu yn anffurfiol ac ni chânt eu dogfennu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Gwelsom fod y tîm yn cydweithio'n dda iawn, gan helpu ei gilydd a rhoi blaenoriaeth i ryngweithio â'r plant.

Mae'r arweinwyr a'r staff wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r rhieni. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff gofal a'r gwasanaeth yn fawr yn gyffredinol; maent yn hyderus bod eu plant yn hapus iawn ac wedi setlo'n dda. Dywedodd un rhiant y gwnaethom siarad â hi wrthym nad oes angen gofal plant ar ôl ysgol arni mwyach, ond bod ei phlentyn yn dal i fynychu am ei bod wrth ei bodd yno. Mae bron pob aelod o'r staff sydd wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth hwn hefyd yn gweithio yn yr ysgol lle mae wedi'i leoli, felly maent yn adnabod y plant a'u hanghenion yn eithriadol o dda. Dywedodd y Person Cofrestredig wrthym fod yr ysgol yn gefnogol iawn o'r gwasanaeth a'u bod yn cydweithio'n agos.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion canlynol â'r Person Cofrestredig:

- Sicrhau bod y bwyd a ddarperir yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth;
- ehangu'r polisi amddiffyn plant a sicrhau y caiff cofnodion o bryderon eu storio'n gyfrinachol;
- sicrhau mai dim ond dyfeisiau sy'n eiddo i'r gwasanaeth a ddefnyddir i gymryd ffotograffau o blant a gweithgareddau;
- sicrhau bod asesiadau risg ar gael i bob aelod o'r staff fel dogfen weithredol ac ystyried dogfennu gwiriadau gweledol dyddiol;
- ystyried ffyrdd o ddarparu dodrefn ychwanegol ar gyfer y plant hŷn;
- sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chadw ar y safle;
- sicrhau y dangosir tystiolaeth o adborth gan rieni fel rhan o'r broses hunanfonitro;
- dogfennu cyfarfodydd tîm
- ffurfioli a dogfennu prosesau goruchwylio ac arfarnu, a chyfeirio at ganllawiau arferion gorau Gofal Cymdeithasol Cymru.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd un arolygydd ddau ymweliad â'r gwasanaeth ddwywaith, ac roedd y cyntaf yn ddirybudd. Gwnaethom y canlynol:

- treulio tua chwe awr yn y gwasanaeth;
- arsylwi ar arferion a'r rhyngweithio â'r plant;
- siarad â'r Person Cofrestredig, y Person â Chyfrifoldeb dros dro, pedwar rhiant a sawl plentyn a oedd yn bresennol;
- adolygu'r wybodaeth a ddelir gan AGC;
- edrych ar amrywiaeth o ddogfennaeth yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau, cofnodion dyddiol,
  sampl o ffeiliau'r plant, sampl o ddogfennaeth ynghylch staff a chofnodion perthnasol eraill a gynhelir fel rhan o'r gwasanaeth
- edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant
- rhoi adborth i'r Person Cofrestredig dros y ffôn yn dilyn yr ymweliadau arolygu.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Person Cofrestredig** | **Joanne Lewis** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Timothy Tilling** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **43** |
| **Ystod oedran y plant** | **4-11 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 3:30 a 6:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **15 Hydref a 13 Tachwedd 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **11 a 12 Chwefror 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim.** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/07/2020

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.